
# A. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant




## Cyflwyniad

Derbyniodd Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 11 Medi 2025. Prif ddiben y Ddeddf yw sicrhau nad yw tomenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bwriad y polisi yw lleihau'r risg o dirlithriadau drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer rheoleiddio, rheoli ac arolygu tommeni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. Bydd hyn yn creu amgylchedd mwy diogel i'r cymunedau a'r seilwaith sydd wedi'u lleoli'n agos at dommeni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo ledled Cymru.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu corff newydd, sef Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod), a phrif amcan y corff hwn yw sicrhau nad yw tomenni glo nas defnyddir na thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu a chategoreiddio tomenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, monitro swyddogaethau a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Hefyd, mae'r Bil yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau ar dir, os yw'n ystyried bod angen gweithrediadau o'r fath i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, neu i sefydlogi tomenni o'r fath nas defnyddir neu eu hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.

Wrth ddatblygu'r darpariaethau yn y Ddeddf, comisiynwyd Plant yng Nghymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori gyda'r nod o gasglu barn pobl ifanc rhwng 14 a 16 oed. Amlygodd y digwyddiadau hyn gonsensws clir o blaid gwneud tomenni'n fwy diogel ar gyfer dyfodol ein cymunedau.

Yn sgil sefydlu'r Awdurdod, bydd yn bwysig sicrhau bod gwiriadau annibynnol ac atebolrwydd gweithdrefnol yn rhan annatod o'r system, er mwyn sicrhau tegwch ac i alluogi unigolion i gwestiynu, herio ac apelio yn erbyn penderfyniadau.

I gyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ddatblygu rheoliadau am y weithdrefn i'w dilyn:

- pan fo perchennog tir yn dymuno apelio yn erbyn Hysbysiad adran 35 a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gynnal gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i'w sefydlogi, neu i'w atal rhag mynd yn fwy ansefydlog;

- pan fo perchennog yn gwneud cais am ad-daliad o dreuliau a ysgwyddwyd wrth gydymffurfio â gofynion Hysbysiad adran 35, sydd wedyn yn cael ei ganslo gan yr Awdurdod.

Mae Rheoliadau drafft Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau) (Cymru) 2027 (y Rheoliadau) yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr gyflawni gweithrediadau o dan adran 35 o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 (y Ddeddf) ac ar gyfer ceisiadau am ad-dalu treuliau yn dilyn canslo hysbysiadau o'r fath o dan adran 43 o'r Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhai gweithdrefnol sy'n cefnogi tegwch, tryloywder a mynediad at gyfiawnder i bob tirfeddiannwr a pharti â diddordeb, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Rheoliadau yn pennu'r amserlenni ar gyfer cyflwyno apelau a sylwadau dilynol i'r person penodedig gan yr apelydd a'r partïon â diddordeb. Mae'r Rheoliadau hefyd yn amlinellu'r gweithdrefnau sydd ar gael i'r person penodedig wrth benderfynu ar apêl – h.y. drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad, neu gyfuniad o'r rhain.

Y bwriad yw i'r Rheoliadau ddarparu gweithdrefn glir ac effeithlon ar gyfer rheoleiddio apelau, gan gynnig llwybr clir i dirfeddianwyr a phartïon â diddordeb herio penderfyniadau, a thrwy hynny gryfhau ymddiriedaeth yn y fframwaith rheoleiddio.

Nid yw plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr uniongyrchol yn y broses apelio. Ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad uniongyrchol â phlant ar y Rheoliadau drafft hyn, gan fod y Rheoliadau yn rhai gweithdrefnol eu natur ac yn effeithio'n bennaf ar dirfeddianwyr, partïon â diddordeb a'r Awdurdod .

Fodd bynnag, ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn ac felly mae'n gyfle i unrhyw grwpiau perthnasol wneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft. Os caiff effeithiau ar blant a phobl ifanc eu nodi yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r sylwadau a'r adborth hynny.

## 1. Amcanion polisi

Mae Rheoliadau drafft Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau) (Cymru) 2027 (y Rheoliadau) yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr gyflawni gweithrediadau o dan adran 35 o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) (y Ddeddf) yn ogystal ag ar gyfer ceisiadau am ad-dalu treuliau yn dilyn canslo hysbysiadau o'r fath o dan adran 43 o'r Ddeddf. Bwriedir i'r Rheoliadau gweithdrefnol hyn gefnogi tegwch a thryloywder wrth weithredu'r Ddeddf, sydd â'r nod o leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir a diogelu cymunedau, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

**Yr Effaith ar Blant a Phobl Ifanc**

Nod y Ddeddf yw lleihau'r risg a achosir gan domenni nas defnyddir sy'n bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd, diogelu cartrefi, ysgolion a seilwaith, a chefnogi lles meddyliol drwy leihau'r pryder ynghylch tirlithriadau posibl o'r tomenni hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhai gweithdrefnol eu natur ac nid ydynt yn cyfyngu ar hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er na fydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan uniongyrchol yn y broses apelio, gall penderfyniadau ar geisiadau effeithio'n anuniongyrchol ar eu lles a'u hawliau, yn enwedig mewn cymunedau sydd wedi'u lleoli ger tomenni nas defnyddir.

Mae'r Rheoliadau yn fesur diogelu angenrheidiol o dan Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025. Pan gânt eu gweithredu gan roi ystyriaeth i hawliau a lles plant, maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelwch a sefydlogrwydd cymunedol.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi'r hawl i blant fod yn rhan o benderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad uniongyrchol â phlant ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan fod y Rheoliadau eu hunain yn rhai gweithdrefnol ac wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer y person penodedig a fydd yn penderfynu ar apelau. Fodd bynnag, pe bai ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi unrhyw effeithiau ar blant a phobl ifanc, caiff yr asesiadau o'r effaith eu diweddaru'n unol â hynny.

**Pa waith gyda phlant a phobl ifanc ydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.**

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer proses sy'n galluogi perchennog i wneud cais i ganslo neu amrywio hysbysiad adran 35, neu i wneud cais am ad-dalu treuliau a ysgwyddwyd yn sgil canslo hysbysiad o'r fath. Ni ddisgwylir i blant a phobl ifanc ddod o dan y categori tomen/perchennog tir neu bartïon â diddordeb.

3. **Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- **Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r cymunedau y gallai tirlithriadau o domenni nas defnyddir effeithio arnynt. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio, rheoli ac arolygu tomenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, gyda'r nod o leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol a diogelu cymunedau yng Nghymru, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc a seilwaith ger tomenni o'r fath.

**Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.**

Mae'r cynigion yn ymwneud yn anuniongyrchol ag Erthyglau 6.12, 17, 24, 27 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mewn perthynas â'r rhain, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o'n cynigion ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

| **Erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** | **Gwella (✓)** | **Esboniad** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Erthygl 6 – Yr hawl i fywyd | ✓ | Mae'r broses apelio yn rhan o'r gyfundrefn sy'n atal ansefydlogrwydd tomenni, gan ddiogelu bywydau. |
| Erthygl 12 – Yr hawl i gael gwrandawiad | ✓ | Bu barn pobl ifanc yn llywio’r gwaith o ddatblygu’r Ddeddf. Cynhaliodd Plant yng Nghymru nifer o ddigwyddiadau ymgynghori gyda phobl ifanc i gasglu eu barn am y Ddeddf. |
| Erthygl 17 – Mynediad at wybodaeth | ✓ | Cofrestr gyhoeddus a chanllawiau dwyieithog yn hyrwyddo tryloywder a dealltwriaeth. |
| Erthygl 24 – Iechyd a lles | ✓ | Mae lleihau'r risg o dirlithriad yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol a hawl plentyn i fyw mewn amgylchedd diogel. |
| Erthygl 27 – Safon byw | ✓ | Diogelu cartrefi a chymunedau rhag tirlithriadau posibl drwy’r gyfundrefn newydd, sy’n cynnwys rhaglen o arolygiadau a gwaith cynnal a chadw ar gyfer tomenni. |
| Erthygl 29 – Addysg a datblygu | ✓ | Mae amgylcheddau mwy diogel yn hybu addysg ddi-fwlch a bywyd cymunedol. |
| Erthygl 31 – Yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o | ✓ | Mae amgylcheddau mwy diogel yn hybu ymlacio a chwarae. |

| | | |
|---|---|---|
| weithgareddau diwylliannol ac artistig | | |

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu polisi mewn meysydd perthnasol. Mae dau faes yn arbennig o berthnasol i Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 a'r Rheoliadau ategol:

**Parchu barn y plentyn (adran 23)**
Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth sylfaenol, casglwyd barn plant a phobl ifanc drwy'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd dan arweiniad Plant yng Nghymru. Roedd yr adborth hwn wedi'i ymgorffori fel rhan o'r dull cyffredinol o sicrhau diogelwch hirdymor tomenni nas defnyddir a dangosodd gefnogaeth gref am fesurau sy'n gwella diogelwch cymunedol. Er bod y Rheoliadau eu hunain yn weithdrefnol eu natur ac felly nid oedd angen ymgynghori pellach â phlant, mae'r fframwaith deddfwriaethol ehangach eisoes wedi ystyried eu cyfraniadau blaenorol.

**Iechyd yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd (Adran 45)**
Mae'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru (CCRA3) yn tynnu sylw at debygolrwydd cynyddol o dirlithriadau wrth i risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ddwysáu. Mae'r digwyddiadau hyn yn peri bygythiadau sylweddol i gymunedau, i seilwaith allweddol, ac i'r amgylchedd ehangach. Diben y Ddeddf yw diogelu lles pobl trwy sicrhau sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir yn yr amgylchedd risg hwn sy'n newid. Mae'r Rheoliadau yn cefnogi gweithredu'r Ddeddf drwy sefydlu prosesau apelio teg a thryloyw; ond, nid ydynt yn dylanwadu'n uniongyrchol ar effeithiau newid hinsawdd nac ar y risgiau amgylcheddol sylfaenol.

## 4. Cyngor a phenderfyniadau gweinidogol

Bydd effaith y cynigion ar hawliau plant yn cael ei hadlewyrchu yn y cyngor i Weinidogion. Bydd hyn yn sicrhau bod lles a hawliau plant wedi cael eu hystyried yn llawn, ac unrhyw faterion a nodwyd yn cael sylw.

Comisiynwyd Plant yng Nghymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori i gasglu barn pobl ifanc 14–16 oed ar y darpariaethau a nodir yn y Bil. Roedd yr ystod oedran wedi'i chyfyngu'n fwriadol, o ystyried yr effaith emosiynol bosibl sy'n gysylltiedig â hanes trychinebau tomenni glo, presenoldeb parhaus tomenni nas defnyddir mewn rhai cymunedau, a'r pryderon diogelu a lles a allai godi mewn perthynas â phlant iau. Ar y cyfan, roedd y bobl ifanc yn gefnogol i sicrhau bod

tomenni glo yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol, a chroesawyd y cynigion i gategoreiddio tomenni nas defnyddir.

Yn ogystal, cyflwynodd swyddogion gynigion y Papur Gwyn i'r Grŵp Gweithredu ar Hawliau Plant ar 23 Mehefin 2022, gan fanteisio ar arbenigedd y grŵp i ystyried sut y gallai'r cynigion effeithio ar blant a phobl ifanc.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027 drafft, gellir rhannu barn ar yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant drafft hwn. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad i gasglu dystiolaeth ychwanegol o effeithiau ar blant a phobl ifanc.

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- **Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc am eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad uniongyrchol â phlant ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan fod y Rheoliadau eu hunain yn rhai gweithdrefnol ac yn effeithio'n bennaf ar y person penodedig a fydd yn penderfynu ar yr apêl.

## 7. Monitro ac Adolygu

Bydd unrhyw drefniadau monitro ac adolygu ar gyfer y Rheoliadau yn sicrhau bod eu gweithrediad yn parhau'n dryloyw, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc, teuluoedd a rhanddeiliaid ehangach. Bydd yr adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cyd-fynd yn ffurfiol â'r cylchoedd adolygu polisi a deddfwriaethol ehangach ar gyfer Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025, gan sicrhau y caiff unrhyw faterion sy'n codi sy'n effeithio ar hawliau plant eu nodi a'u hystyried yn brydlon ac yn gyson. Bydd adborth gan sefydliadau hawliau plant, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid perthnasol yn rhan allweddol o'r broses hon, gan helpu i sicrhau gwelliant parhaus ac atebolrwydd.